



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 1291 (Cy. 326)

2021 No. 1291 (W. 326)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Cymru) (Diwygiadau Amrywiol)
2021

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Restrictions) (Wales)
(Miscellaneous Amendments)
Regulations 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y Rheoliadau Cyfyngiadau").

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) ("the International Travel Regulations") and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1609 (W. 335)) ("the Restrictions Regulations").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gofod cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd yn gwneud darpariaethau penodol ar gyfer "teithwyr rheoliad 2A"; gan gynnwys unigolion sydd wedi eu brechu'n llawn mewn gwledydd a thiriogaethau rhagnodedig.

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with those Regulations. The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply. The International Travel Regulations also make specific provisions for "regulation 2A travellers"; including individuals who have been fully vaccinated in prescribed countries and territories.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 2 (dehongli cyffredinol) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn estyn y gydnabyddiaeth o dystysgrifau brechlyn penodol a ddyroddir gan wledydd a thiriogaethau Ewropeaidd ychwanegol, at ddibenion esemptiadau teithio o ran profi cyn ymadael a brechlynnau.

Regulation 3 of these Regulations amends regulation 2 (general interpretation) of the International Travel Regulations so as to extend the recognition of certain vaccine certificates issued by additional European countries and territories, for the purposes of pre-departure testing and vaccine travel exemptions.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn—

- estyn y gydnabyddiaeth o frechiadau i ragor o wledydd a thiriogaethau;
- ehangu'r diffiniad o "brechlyn awdurdodedig" drwy ddileu'r gofyniad ei fod i'w weinyddu mewn gwlad berthnasol a thrwy gydnabod brechlynnau penodol a gydnabyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd;
- dileu'r gofynion preswyllo ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu yn Unol Daleithiau America, cyfranogwyr mewn treialon clinigol, a theithwyr o dan 18 oed;
- cyflwyno dulliau pellach i deithwyr brofi eu bod wedi eu brechu, gan gynnwys tystysgrifau trydydd gwledydd a thiriogaethau a gymeradwywyd a thystysgrifau brechu taleithiau penodol yn yr Unol Daleithiau;
- gwneud diwygiadau technegol pellach gan gynnwys ynghylch brechiadau fel rhan o raglen frechu'r DU dramor.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 3 (personau sy'n cyrraedd o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i esemptio'r personau a ganlyn rhag y gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr pan fônt wedi teithio i Gymru yng nghwrs eu gwaith (pa un a ydynt wedi teithio ar gludiant sy'n cario teithwyr ai peidio): gweithwyr cludiant ffyrdd; gweithwyr cludiant teithwyr ffyrdd; meistri a morwyr; peilotiaid ar longau masnach; arolygwyr a syrfewyr llongau; a chriw awyren.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 9 (gofynion ynysu: esemptiadau) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan ddileu'r gofyniad i ddiplomyddion penodol gael awdurdodiad ysgrifenedig gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu cyn dibynnu ar ddarpariaethau esemptio rhag ynysu. Mae rheoliad 9 hefyd wedi ei ddiwygio er mwyn cysoni esemptiadau rhag ynysu ar gyfer gweithwyr cludiant ffyrdd ni waeth beth fo'u statws preswyllo.

Mae rheoliadau 7 ac 8 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol yn dilyn y diwygiadau a wneir gan reoliad 4.

Regulation 4 of these Regulations amends regulation 2A (exemptions for vaccinated travellers and others) of the International Travel Regulations to—

- extend the recognition of vaccinations to further countries and territories;
- broaden the definition of "authorised vaccine" by removing the requirement that it is to be administered in a relevant country and through recognising certain WHO recognised vaccines;
- remove the residency requirements for travellers vaccinated in the United States of America, participants in clinical trials, and travellers under 18;
- introduce further means of proof of vaccination, including approved third countries and territories certificates and certain US State vaccination certificates;
- make further technical amendments including around vaccinations as part of the UK vaccine roll-out overseas.

Regulation 5 of these Regulations amends regulation 3 (persons arriving from outside the common travel area) of the International Travel Regulations to exempt the following persons from the requirement to provide passenger information when they have travelled to Wales in the course of their work (whether or not they have travelled in a passenger carrying conveyance): road haulage workers; road passenger transport workers; masters and seamen; pilots involved in merchant shipping; inspectors and surveyors of ships; and crew on aircraft.

Regulation 6 of these Regulations amends regulation 9 (isolation requirements: exemptions) of the International Travel Regulations, removing the requirement for certain diplomats to receive written authorisation from the Foreign, Commonwealth & Development Office ahead of reliance on isolation exemption provisions. Regulation 9 is also amended so as to align isolation exemptions for road haulage workers regardless of residency status.

Regulations 7 and 8 contain consequential amendments following the amendments made by regulation 4.

Mae rheoliad 9 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 16A (mesurau penodol sy'n gymwys i leoliadau a mangreoedd lletygarwch ac adloniant penodedig neu lle y cynhelir digwyddiadau penodedig) o'r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn cynnal cysondeb â rheoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys estyn ymhellach y rhestr o wledydd a thiriogaethau ym mharagraff (12) o'r rheoliad hwnnw fel bod tystiolaeth o frechu yn y gwledydd hynny â brechlynnau sydd wedi eu hawdurdodi yn y Deyrnas Unedig hefyd yn dderbyniol at ddibenion yr hyn a adwaenir yn gyffredin fel y pàs COVID.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 9 of these Regulations amends regulation 16A (specific measures applicable to specified hospitality and entertainment venues and premises at which specified events are held) of the Restrictions Regulations in order to maintain consistency with regulation 2A of the International Travel Regulations. This includes further extending the list of countries and territories in paragraph (12) of that regulation so that evidence of vaccination in those countries with vaccines authorised in the United Kingdom is also acceptable for the purposes of what is commonly known as the COVID-pass.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2021 Rhif 1291 (Cy. 326)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Cymru) (Diwygiadau Amrywiol)
2021

Gwnaed am 3.58 p.m. ar 19 Tachwedd 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.00 p.m. ar 19 Tachwedd 2021*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 22 Tachwedd
2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mewn perthynas â'r ddarpariaeth a wneir gan reoliad 9 o'r Rheoliadau hyn, yn unol ag adran 45Q(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r offeryn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 45C(3)(c) o'r Ddeddf sy'n gosod neu'n galluogi gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig, neu unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sy'n cael neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

2021 No. 1291 (W. 326)

PUBLIC HEALTH, WALES

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Restrictions) (Wales)
(Miscellaneous Amendments)
Regulations 2021

Made at 3.58 p.m. on 19 November 2021

*Laid before Senedd
Cymru at 6.00 p.m. on 19 November 2021*

*Coming into force at 4.00 a.m. on 22
November 2021*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B, 45C(1) and (3)(c), and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

In relation to the provision made by regulation 9 of these Regulations, in accordance with section 45Q(3) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984, the Welsh Ministers are of the opinion that the instrument does not contain any provision made by virtue of section 45C(3)(c) of the Act which imposes or enables the imposition of a special restriction or requirement, or any other restriction or requirement which has or would have a significant effect on a person's rights.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 22 Tachwedd 2021.

Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

2. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Diwygiad i reoliad 2

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli cyffredinol), yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “Tystysgrif COVID Ddigidol yr UE” (“*EU Digital COVID Certificate*”) yw tystysgrif o gofnodion COVID-19 a ddyroddir gan wladwriaeth AEE, Aelod-wladwriaeth o'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd, Andorra, Gwladwriaeth Dinas y Fatican, Monaco neu San Marino;”.

Diwygiadau i reoliad 2A

4.—(1) Mae rheoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3)—

(a) hepgorer is-baragraff (b);

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force at 4.00 a.m. on 22 November 2021.

Amendments to the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020

2. The Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

Amendment to regulation 2

3. In regulation 2(1) (general interpretation), in the appropriate place insert—

““EU Digital COVID Certificate” (“*Tystysgrif COVID Ddigidol yr UE*”) means a certificate of COVID-19 records issued by an EEA state, a member State of the European Free Trade Association, Andorra, Monaco, San Marino or the Vatican City State;”.

Amendments to regulation 2A

4.—(1) Regulation 2A (exemptions for vaccinated travellers and others) is amended as follows.

(2) In paragraph (3)—

(a) omit sub-paragraph (b);

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/669 (Cy. 170), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/826 (Cy. 193), O.S. 2021/863 (Cy. 202), O.S. 2021/867 (Cy. 203), O.S. 2021/915 (Cy. 208), O.S. 2021/926 (Cy. 211), O.S. 2021/967 (Cy. 227), O.S. 2021/1063 (Cy. 250), O.S. 2021/1109 (Cy. 265), O.S. 2021/1126 (Cy. 273) ac O.S. 2021/1212 (Cy. 303).

(1) S.I. 2020/574 (W. 132), amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/942, S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I. 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278), S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286), S.I. 2020/1329 (W. 295), S.I. 2020/1362 (W. 301), S.I. 2020/1477 (W. 316), S.I. 2020/1521 (W. 325), S.I. 2020/1602 (W. 332), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/24 (W. 8), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/48 (W. 11), S.I. 2021/50 (W. 12), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/72 (W. 18), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/154 (W. 38), S.I. 2021/305 (W. 78), S.I. 2021/361 (W. 110), S.I. 2021/454 (W. 144), S.I. 2021/500 (W. 149), S.I. 2021/568 (W. 156), S.I. 2021/584 (W. 161), S.I. 2021/646 (W. 166), S.I. 2021/669 (W. 170), S.I. 2021/765 (W. 187), S.I. 2021/826 (W. 193), S.I. 2021/863 (W. 202), S.I. 2021/867 (W. 203), S.I. 2021/915 (W. 208), S.I. 2021/926 (W. 211), S.I. 2021/967 (W. 227), S.I. 2021/1063 (W. 250), S.I. 2021/1109 (W. 265), S.I. 2021/1126 (W. 273) and S.I. 2021/1212 (W. 303).

- (b) hepgorer is-baragraff (ba);
- (c) yn is-baragraff (c)—
- (i) ar ôl paragraff (ii) mewnosoder—
- “(iia) tystysgrif o gofnodion COVID-19 a ddyroddir gan drydedd wlad neu diriogaeth a gymeradwywyd;
- (iib) Tystysgrif Gogledd America;”;
- (ii) ar y diwedd, mewnosoder “a”;
- (d) hepgorer is-baragraff (ca).
- (3) Ym mharagraff (4A)—
- (a) ar ddiwedd is-baragraff (b), mewnosoder “ac”;
- (b) ar ôl is-baragraff (c), hepgorer “a”;
- (c) hepgorer is-baragraff (d).
- (4) Ym mharagraff (5), hepgorer is-baragraff (a).
- (5) Ym mharagraff (6)—
- (a) yn y geiriau agoriadol, hepgorer “naill ai”;
- (b) ar ddiwedd is-baragraff (a)(iii) hepgorer “, neu”;
- (c) hepgorer is-baragraff (b).
- (6) Yn lle paragraff (7A), rhodder—
- “(7A) At ddibenion paragraff (3)—
- (a) pan fo P wedi cael dos o un brechlyn awdurdodedig a dos o frechlyn awdurdodedig gwahanol, bernir bod P wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig;
- (b) pan fo P wedi cael o leiaf dau ddos o unrhyw un o'r brechlynnau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (d) o'r diffiniad o “brechlyn awdurdodedig”, bernir bod P wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig.”
- (7) Ym mharagraff (8), hepgorer “yn y Deyrnas Unedig”.
- (8) Ym mharagraff (10)—
- (a) yn y diffiniad o “brechlyn awdurdodedig”—
- (i) yn y geiriau o flaen paragraff (a), hepgorer “a awdurdodwyd”;
- (ii) ym mharagraff (a), ar ôl “y Deyrnas Unedig” mewnosoder “, a awdurdodwyd”;
- (iii) ym mharagraff (b), ar ôl “ym mharagraff (11),” mewnosoder “a awdurdodwyd”;
- (iv) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—
- “(d) mewn perthynas â dosau a geir mewn unrhyw wlad yn y byd, y brechlynnau hynny sydd—
- (b) omit sub-paragraph (ba);
- (c) in sub-paragraph (c)—
- (i) after paragraph (ii) insert—
- “(iia) a certificate of COVID-19 records issued by an approved third country or territory;
- (iib) a North American Certificate;”;
- (ii) at the end, insert “and”;
- (d) omit sub-paragraph (ca).
- (3) In paragraph (4A)—
- (a) at the end of sub-paragraph (b), insert “and”;
- (b) after sub-paragraph (c), omit “and”;
- (c) omit sub-paragraph (d).
- (4) In paragraph (5), omit sub-paragraph (a).
- (5) In paragraph (6)—
- (a) in the opening words, omit “either”;
- (b) at the end of sub-paragraph (a)(iii) omit “, or”;
- (c) omit sub-paragraph (b).
- (6) For paragraph (7A), substitute—
- “(7A) For the purposes of paragraph (3)—
- (a) where P has received a dose of one authorised vaccine and a dose of a different authorised vaccine, P is deemed to have completed a course of doses of an authorised vaccine;
- (b) where P has received at least two doses of any of the vaccines referred to in sub-paragraph (d) of the definition of “authorised vaccine”, P is deemed to have completed a course of doses of an authorised vaccine.”
- (7) In paragraph (8), omit “in the United Kingdom”.
- (8) In paragraph (10)—
- (a) in the definition of “authorised vaccine”—
- (i) in the words before paragraph (a), omit “authorised” in the last place it occurs;
- (ii) in paragraph (a), after “United Kingdom” insert “, authorised”;
- (iii) in paragraph (b) after “paragraph (11),” insert “authorised”;
- (iv) after paragraph (c) insert—
- “(d) in relation to doses received in any country in the world, those vaccines which are—

- (i) wedi eu rhestru yn llinellau 10, 11 neu 13 o'r Ddogfen Ganllaw "Status of COVID-19 Vaccines within WHO EUL/PQ evaluation process" a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Tachwedd 2021, a
- (ii) wedi eu hawdurdodi neu eu hardystio mewn gwlad reoleiddiedig a restrir ym mharagraff (12);";
- (b) yn y lle priodol mewnosoder—
 "ystyr "Tystysgrif Gogledd America" ("North American Certificate") yw—
 (a) Excelsior Pass Plus (Efrog Newydd);
 (b) Cofnod Brechlyn COVID-19 Digidol (California);
 (c) WA Verify (talaith Washington);";
- (c) yn y diffiniad o "rhaglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor"—
 (i) ar ddiwedd paragraff (a), mewnosoder "neu";
 (ii) hepgorer paragraff (b) (gan gynnwys y "neu" ar y diwedd).
- (9) Ym mharagraff (12), yn y lleoedd priodol mewnosoder—
 "Belarws"
 "Bolivia"
 "Ecuador"
 "Gweriniaeth Dominica"
 "Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo"
 "Laos"
 "Libya"
 "Malawi"
 "Mozambique"
 "Samoa"
 "Senegal"
 "Vanuatu"
 "Zambia"
 "Zimbabwe".
- (10) Ar ôl paragraff (12), mewnosoder—
 "(12A) Mae'r gwledydd a'r tiriogaethau a ganlyn yn drydydd gwledydd neu diriogaethau a gymeradwywyd at ddibenion y Rhan hon—
 Albania
 Armenia
- (i) listed in lines 10, 11 or 13 of the Guidance Document "Status of COVID-19 Vaccines within WHO EUL/PQ evaluation process" published by the World Health Organisation on 11 November 2021, and
- (ii) authorised or certified in a regulated country listed in paragraph (12);";
- (b) in the appropriate place insert—
 "North American Certificate" ("Tystysgrif Gogledd America") means—
 (a) Excelsior Pass Plus (New York);
 (b) Digital COVID-19 Vaccine Record (California);
 (c) WA Verify (Washington state);";
- (c) in the definition of "United Kingdom vaccine roll-out overseas"—
 (i) at the end of paragraph (a), insert "or";
 (ii) omit paragraph (b) (including the "or" at the end).
- (9) In paragraph (12), at the appropriate places insert—
 "Belarus"
 "Bolivia"
 "Democratic Republic of the Congo"
 "Dominican Republic"
 "Ecuador"
 "Laos"
 "Libya"
 "Malawi"
 "Mozambique"
 "Samoa"
 "Senegal"
 "Vanuatu"
 "Zambia"
 "Zimbabwe".
- (10) After paragraph (12), insert—
 "(12A) The following countries and territories are approved third countries or territories for the purposes of this Part—
 Albania
 Armenia

Gogledd Macedonia
Israel
Morocco
Panama
Twrci
Wcrain
Ynysoedd Ffaro.”

Faroe Islands
Israel
Morocco
North Macedonia
Panama
Turkey
Ukraine. ”

Diwygiadau i reoliad 3

5.—(1) Mae rheoliad 3 (personau sy'n cyrraedd o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Ym mharagraff (2)—
- (a) ar ôl is-baragraff (a), mewnosoder—
- “(aa) person a ddisgrifir ym mharagraffau 6 i 10 o Atodlen 2.”
- (b) hepgorer is-baragraff (c).
- (3) Hefgorer paragraffau (3) a (4).

Diwygiadau i reoliad 9

6.—(1) Mae rheoliad 9 (gofynion ynysu: esemptiadau) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Ym mharagraff (2)—
- (a) yn lle is-baragraff (a) rhodder—
- “(aa) person a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(a), (b), (h) neu (k) o Atodlen 2, neu aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o aelwyd person o'r fath;
- (bb) person a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(c), (d), (e), (f), (g), (i) neu (j) o Atodlen 2, neu aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o aelwyd person o'r fath, ac sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff 1(2) o'r Atodlen honno;”.
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “2 i 5, 6A i 16” rhodder “2 i 16”;
- (c) hepgorer is-baragraff (c);
- (d) yn is-baragraff (d), hepgorer “yn ddarostyngedig i baragraff (3),”.
- (3) Hefgorer paragraffau (3) i (6).

Diwygiad i reoliad 10

7. Yn rheoliad 10 (gofynion ynysu: eithriadau), hepgorer paragraff (4)(o).

Amendments to regulation 3

5.—(1) Regulation 3 (persons arriving from outside the common travel area) is amended as follows.

- (2) In paragraph (2)—
- (a) after sub-paragraph (a), insert—
- “(aa) a person described in paragraphs 6 to 10 of Schedule 2.”
- (b) omit sub-paragraph (c).
- (3) Omit paragraphs (3) and (4).

Amendments to regulation 9

6.—(1) Regulation 9 (isolation requirements: exemptions) is amended as follows.

- (2) In paragraph (2)—
- (a) for sub-paragraph (a) substitute—
- “(aa) a person described in paragraph 1(1)(a), (b), (h) or (k) of Schedule 2, or a member of the family forming part of the household of such a person;
- (bb) a person described in paragraph 1(1)(c), (d), (e), (f), (g), (i) or (j) of Schedule 2, or a member of the family forming part of the household of such a person, and who satisfies the conditions in paragraph 1(2) of that Schedule;”.
- (b) in sub-paragraph (b), for “2 to 5, 6A to 16” substitute “2 to 16”;
- (c) omit sub-paragraph (c);
- (d) in sub-paragraph (d), omit “subject to paragraph (3),”.
- (3) Omit paragraphs (3) to (6).

Amendment to regulation 10

7. In regulation 10 (isolation requirements: exceptions), omit paragraph (4)(o).

Diwygiad i Atodlen 2

8. Ym mharagraff 1(2) o Atodlen 2 (personau esempt), yn lle “9(2)(a)” rhodder “9(2)(bb)”.

Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

9.—(1) Mae rheoliad 16A (mesurau penodol sy’n gymwys i leoliadau a mangreodded lletygarwch ac adloniant penodedig neu lle y cynhelir digwyddiadau penodedig) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (6)—

- (a) yn is-baragraff (a), hepgorer paragraff (i) (gan gynnwys yr “a” ar y diwedd);
- (b) yn is-baragraff (c)—
 - (i) yn lle “gan wlad berthnasol” rhodder “ac eithrio yn y Deyrnas Unedig”;
 - (ii) ar ôl “dystysgrif COVID ddigidol yr UE,” mewnosoder “tystysgrif cofnodion COVID-19 a ddyroddir gan drydedd wlad neu diriogaeth a gymeradwywyd,”;
 - (iii) ar ôl “Canolfannau Rheoli ac Atal Clefydau,” mewnosoder “Tystysgrif Gogledd America”.

(3) Yn lle paragraff (8), rhodder—

“(8) At ddibenion y rheoliad hwn, pan fo person wedi cael cwrs o ddosau sy’n cynnwys un dos o frechlyn awdurdodedig o dan raglen frechu’r Deyrnas Unedig dramor ac un dos o frechlyn awdurdodedig ac eithrio o dan raglen frechu’r Deyrnas Unedig dramor, bernir bod y person wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn o dan raglen frechu’r Deyrnas Unedig dramor.”

(4) Ym mharagraff (9)(b)—

- (a) yn lle’r geiriau o flaen paragraff (i) rhodder—

“(b) mae person wedi cwblhau cwrs o ddosau—”;
- (b) ym mharagraff (i)(bb), hepgorer y “, neu” ar y diwedd;

Amendment to Schedule 2

8. In paragraph 1(2) of Schedule 2 (exempt persons), for “9(2)(a)” substitute “9(2)(bb)”.

Amendments to the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020

9.—(1) Regulation 16A (specific measures applicable to specified hospitality and entertainment venues and premises at which specified events are held) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020(1) is amended as follows.

(2) In paragraph (6)—

- (a) in sub-paragraph (a), omit paragraph (i) (including the “and” at the end);
- (b) in sub-paragraph (c)—
 - (i) for “by a relevant country” substitute “otherwise than in the United Kingdom”;
 - (ii) after “EU digital COVID certificate,” insert “a certificate of COVID-19 records issued by an approved third country or territory,”;
 - (iii) after “Prevention vaccination card,” insert “a North American Certificate”.

(3) For paragraph (8), substitute—

“(8) For the purposes of this regulation, where a person has received a course of doses that consists of one dose of an authorised vaccine under the United Kingdom vaccine roll-out overseas and one dose of an authorised vaccine otherwise than under the United Kingdom vaccine roll-out overseas, the person is deemed to have completed a course of doses of a vaccine under the United Kingdom vaccine roll-out overseas.”

(4) In paragraph (9)(b)—

- (a) for the words before paragraph (i) substitute—

“(b) a person has completed a course of doses if—”;
- (b) in paragraph (i)(bb), omit the “, or” at the end;

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cy. 160), O.S. 2021/668 (Cy. 169), O.S. 2021/686 (Cy. 172), O.S. 2021/722 (Cy. 183), O.S. 2021/862 (Cy. 201), O.S. 2021/925 (Cy. 210), O.S. 2021/970 (Cy. 228), O.S. 2021/1119 (Cy. 271); O.S. 2021/1131 (Cy. 274), O.S. 2021/1212 (Cy. 303) ac O.S. 2021/1248 (Cy. 320).

(1) S.I. 2020/1609 (W. 335) amended by S.I. 2020/1610 (W. 336), S.I. 2020/1623 (W. 340), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/57 (W. 13), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/103 (W. 28), S.I. 2021/172 (W. 40), S.I. 2021/210 (W. 52), S.I. 2021/307 (W. 79), S.I. 2021/413 (W. 133), S.I. 2021/502 (W. 150), S.I. 2021/542 (W. 154), S.I. 2021/583 (W. 160), S.I. 2021/668 (W. 169), S.I. 2021/686 (W. 172), S.I. 2021/722 (W. 183), S.I. 2021/862 (W. 201), S.I. 2021/925 (W. 210), S.I. 2021/970 (W. 228), S.I. 2021/1119 (W. 271); S.I. 2021/1131 (W. 274), S.I. 2021/1212 (W. 303) and S.I. 2021/1248 (W. 320).

- (c) ym mharagraff (ii), mewnosoder “, neu” ar y diwedd;
- (d) ar ôl paragraff (ii) mewnosoder—
“(iii) os yw’r person wedi cael o leiaf dau ddos o unrhyw frechlyn y cyfeirir ato ym mharagraff (iv) o’r diffiniad o frechlyn awdurdodedig ym mharagraff (10)(a);”.
- (5) Ym mharagraff (10)—
- (a) yn is-baragraff (a)—
- (i) yn y geiriau o flaen paragraff (i), hepgorer “a awdurdodwyd”;
- (ii) ym mharagraff (i), yn y geiriau o flaen is-baragraff (aa), yn lle “neu mewn gwlad berthnasol a restrir ym mharagraff (12), rhodder “, a awdurdodwyd”;
- (iii) ym mharagraff (ii), ar ôl “ym mharagraff (11),” mewnosoder “a awdurdodwyd”;
- (iv) ar ôl paragraff (ii) mewnosoder—
“(iii) mewn perthynas â dosau a geir mewn unrhyw wlad neu diriogaeth arall (gan gynnwys gwlad berthnasol a restrir ym mharagraff (12)), a fyddai’n awdurdodedig fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (i)(aa) neu (bb) pe bai’r dosau wedi eu cael yn y Deyrnas Unedig;
- (iv) mewn perthynas â dosau a geir mewn unrhyw wlad yn y byd, y brechlynnau hynny sydd—
- (aa) wedi eu rhestru yn llinellau 10, 11 neu 13 o’r Ddogfen Ganllaw “Status of COVID-19 Vaccines within WHO EUL/PQ evaluation process” a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Tachwedd 2021, a
- (bb) wedi eu hawdurdodi neu eu hardystio mewn gwlad reoleiddiedig a restrir ym mharagraff (12);”;
- (b) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—
“(aa) ystyr “Tystysgrif COVID Ddigidol yr UE” yw tystysgrif o gofnodion COVID-19 a ddyroddir gan wladwriaeth AEE, Aelod-wladwriaeth o’r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd, Andorra, Gwladwriaeth Dinas y Fatican, Monaco neu San Marino;”;
- (c) in paragraph (ii), insert “, or” at the end;
- (d) after paragraph (ii) insert—
“(iii) the person has received at least two doses of any vaccine referred to in paragraph (iv) of the definition of authorised vaccine in paragraph (10)(a);”.
- (5) In paragraph (10)—
- (a) in sub-paragraph (a)—
- (i) in the words before paragraph (i), omit “authorised” in the last place it occurs;
- (ii) in paragraph (i), in the words before sub-paragraph (aa), for “or in a relevant country listed in paragraph (12)” substitute “, authorised”;
- (iii) in paragraph (ii), after “paragraph (11),” insert “authorised”;
- (iv) after paragraph (ii) insert—
“(iii) in relation to doses received in any other country or territory (including a relevant country listed in paragraph (12)), which would be authorised as provided for in paragraph (i)(aa) or (bb) if the doses were received in the United Kingdom;
- (iv) in relation to doses received in any country in the world, those vaccines which are—
- (aa) listed in lines 10, 11 or 13 of the Guidance Document “Status of COVID-19 Vaccines within WHO EUL/PQ evaluation process” published by the World Health Organisation on 11 November 2021, and
- (bb) authorised or certified in a regulated country listed in paragraph (12);”;
- (b) after sub-paragraph (a) insert—
“(aa) “EU Digital COVID Certificate” means a certificate of COVID-19 records issued by an EEA state, a member State of the European Free Trade Association, Andorra, Monaco, San Marino or the Vatican City State;”;

(c) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

“(ca) ystyr “Tystysgrif Gogledd America” yw—

- (i) Excelsior Pass Plus (Efrog Newydd);
- (ii) Cofnod Brechlyn COVID-19 Digidol (California);
- (iii) WA Verify (talaith Washington);”.

(6) Ym mharagraff (12), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Belarws”
“Bolivia”
“Ecuador”
“Gweriniaeth Dominica”
“Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo”
“Laos”
“Libya”
“Malawi”
“Mozambique”
“Samoa”
“Senegal”
“Vanuatu”
“Zambia”
“Zimbabwe”.

(7) Ar ôl paragraff (12) mewnosoder—

“(13) Mae’r gwledydd a’r tiriogaethau a ganlyn yn drydydd gwledydd neu diriogaethau a gymeradwywyd at ddibenion y rheoliad hwn—

Albania
Armenia
Gogledd Macedonia
Israel
Morocco
Panama
Twrci
Wcrain
Ynysoedd Ffaro.”

(c) after sub-paragraph (c) insert—

“(ca) “North American Certificate” means—

- (i) Excelsior Pass Plus (New York);
- (ii) Digital COVID-19 Vaccine Record (California);
- (iii) WA Verify (Washington state);”.

(6) In paragraph (12), at the appropriate places insert—

“Belarus”
“Bolivia”
“Democratic Republic of the Congo”
“Dominican Republic”
“Ecuador”
“Laos”
“Libya”
“Malawi”
“Mozambique”
“Samoa”
“Senegal”
“Vanuatu”
“Zambia”
“Zimbabwe”.

(7) After paragraph (12) insert—

“(13) The following countries and territories are approved third countries or territories for the purposes of this regulation—

Albania
Armenia
Faroe Islands
Israel
Morocco
North Macedonia
Panama
Turkey
Ukraine.”

Eluned Morgan

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 3.58 p.m. ar 19 Tachwedd 2021

©©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
At 3.58 p.m. on 19 November 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/1291>

ISBN 978-0-348-39167-1



9 780348 391671